

Emynau a Darlleniadau Hymns and Readings

Yr Ail Sul wedi'r Drindod

9 Mehefin 2024

Cymun Bendigaid ar Gân • tudalen 2

Gosber ar Gân • tudalen 16

Hysbys • tudalen 22


The Second Sunday after Trinity

9 June 2024

Choral Holy Eucharist • page 9

Choral Evensong • page 16

Notices • page 22



**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Llywodraeth faith y byd
sydd yn ei llaw,
mae'n tynnu yma i lawr,
yn codi draw:
trwy bob helyntoedd blin,
terfysgoedd o bob rhyw,
dyrchafu'n gyson mae
deyrnas ein Duw.

Ei th'wyllwch dudew sydd
yn olau gwir,
ei dryswch mwyaf, mae
yn drefen glir;
hi ddaw â'i throeon maith
yn fuan oll i ben,
bydd synnu wrth gofio'r rhain
tu draw i'r llen.

Geiriau

David Charles (1762-1834)

Cerddoriaeth | "Builth"

David Jenkins (1848-1915)

Brawddeg

"Dewch, addolwn ac ymgrymwn, plygwn ein gliniau gerbron y
Sanctaidd Un a'n gwnaeth."

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

Hollalluog a thrugarog Dduw, y daw o'th rodd di yn unig
fod dy bobl ffyddlon yn dy wasanaethu'n gywir ac
yn ganmoladwy: caniatâ inni allu dy wasanaethu mor
ffyddlon yn y bywyd hwn fel na chollwn yn y diwedd fwynhad dy
nefol addewidion; trwy haeddiant Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.

Darlleniad

Darlleniad o Lythyr at yr Hebreaid.

Garedigion: Nid ydych chi wedi dod at ddim y gellir ei gyffwrdd, at dân sydd yn llosgi, at gaddug a thywyllwch a thymestl, at floedd utgorn, a llef yn rhoi gorchymyn nes i'r rhai a'i clywodd ymbil am i'r llefaru beidio, am na allent oddef y gorchymyn: "Os bydd anifail, hyd yn oed, yn cyffwrdd â'r mynydd, rhaid ei labyddio." A chan mor ofnadwy oedd yr olygfa, dywedodd Moses, "Y mae arnaf arswyd a chryndod." Ond at Fynydd Seion yr ydych chi wedi dod, ac i ddinas y Duw byw, y Gaersalem nefol; ac at fyrddiynau o angylion yn cadw gwyl, a chynulleidfa y rhai cyntafanedig sydd â'u henwau'n ysgrifenedig yn y nefoedd; ac at Dduw, Barnwr pawb, ac at ysbrydoedd y rhai cyfiawn sydd wedi eu perffeithio, ac at Iesu, cyfryngwr y cyfamod newydd, ac at waed y taenellu, sydd yn llefaru'n gryfach na gwaed Abel. Gwyliwch beidio â gwrthod yr un sydd yn llefaru, oherwydd os na ddihangodd y rhai a wrthododd yr un oedd yn eu rhybuddio ar y ddaear, mwy o lawer ni bydd dianc i ni os byddwn yn troi oddi wrth yr un sy'n ein rhybuddio o'r nefoedd.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Hebreaid 12:18-25

Efengyl



Y Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. R̄ Haleliwia. Haleliwia.

Haleliwia. Y At Fynydd Seion yr ydych chwi wedi dod, ac i ddinas y Duw byw. R̄ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.** Y Dos allan i'r ffyrdd ac i'r cloddiau, a myn ganddynt hwy ddod i mewn, fel y llenwir fy nhŷ. R̄ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Luc.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Meddai un o'i gyd-westeion wrth Iesu, "Gwyn ei fyd pwy bynnag a gaiff gyfran yn y wledd yn nheyrnas Dduw." Ond meddai ef wrtho, "Yr oedd dyn yn trefnu gwledd fawr. Gwahoddodd lawer o bobl, ac anfonodd ei was ar awr y wledd i ddweud wrth y gwahoddedigion, 'Dewch, y mae popeth yn barod yn awr.' Ond dechreuodd pawb ymesgusodi yn unfryd. Meddai'r cyntaf wrtho, 'Rwyf wedi prynu cae, ac y mae'n rhaid imi fynd allan i gael golwg arno; a wnei di fy esgusodi, os gweli di'n dda?' Meddai un arall, 'Rwyf wedi prynu pum pâr o ychen, ac rwyf ar fy ffordd i roi prawf arnynt; a wnei di fy esgusodi, os gweli di'n dda?' Ac meddai un arall, 'Rwyf newydd briodi, ac am hynny ni allaf ddod.' Aeth y gwas at ei feistr a rhoi gwybod iddo. Yna digiodd meistr y ty, ac meddai wrth ei was, 'Dos allan ar unwaith i heolydd a strydoedd cefn y dref, a thyrd â'r tlodion a'r anafusion a'r deillion a'r cloffion i mewn yma.' Pan ddywedodd y gwas, 'Meistr, y mae dy orchymyn wedi ei gyflawni, ond y mae lle o hyd', meddai ei feistr wrtho, 'Dos allan i'r ffyrdd ac i'r cloddiau, a myn ganddynt hwy ddod i mewn, fel y llenwir fy nhy; oherwydd rwy'n dweud wrthy ch na chaiff dim un o'r rheini oedd wedi eu gwahodd brofi fy ngwledd.'"

Dyma Efengyl ein Gwardwr.

Moliant i ti, O Grist.

Luc 14:15-24



Na foed cydweithwyr Duw
byth yn eu gwaith yn drist
wrth ddwyn y meini byw
i'w dodî'n nhemel Crist:
llawenydd sydd, llawenydd fydd
i bawb sy'n gweithio 'ngolau ffydd.

Mae gweithwyr gorau'r ne'
yn marw yn eu gwaith,
ond eraill ddaw'n eu lle
ar hyd yr oesoedd maith;
a ffyddlon i'w addewid fry
yw'r hwn a fu'n sylfaenu'r tŷ.

Mae'r Iesu eto'n fyw,
a'r gwaith sydd dan ei law;
ar gyfer gweithwyr Duw
mae bendith oesau ddaw:
llawenydd mawr ynghyd a gawn
ryw ddydd, wrth weld y tŷ yn llawn.

Geiriau

Elfed (Howell Elvet Lewis, 1860-1953)

Cerddoriaeth | "Darwall"

John Darwall (1731-1789)

Motét

Llonna, O Arglwydd, enaid dy was; cans atat ti y dyrchafaf fy enaid.

Geiriau

Salm 86:4

Cerddoriaeth

William Crotch (1775-1847)



Emyn Ôl-Gymun



Wele deulu d'Eglwys, Iesu,
ger dy fron yn plygu nawr
wedi'i lethu gan ei wendid,

yn hiraethu am y wawr:
taer erfyniwn am gael profi
llawnder grym dy Ysbryd Glân
dry ein hofn yn hyder sanctaidd,
dry ein tristwch oll yn gân.

Lle bu ofn yn magu llwfrdra
ac esgusion hawdd gyhyd,
lle daeth niwloedd ein hanobaith
rhyngom ac anghenion byd,
O bywha ni drwy dy Ysbryd:
yn ei nerth fe fentrwn ni
i gyfeiriad byd a'i gyni
â goludoedd Calfarî.

Boed i'r Ysbryd a ddisgynnodd
ar dy blant, O Arglwydd Dduw,
ein hadfywio heddiw eto
nes ceir yma Eglwys fyw:
agor eto'i phyrth yn llydan
i holl angen dyn o hyd,
dyro iddi rym dy Ysbryd
fel y gwasanaetho'r byd.


Geiriau

Geoffrey G. Davies (1924-2015)

Cerddoriaeth | "Arwelfa"

John Hughes (1896-1968)

at the Eucharist



Musical setting

Communion Service in G, Francis Jackson (1917-2022)

Celebrant

The University & Community Chaplain

Preacher

The Minor Canon

Processional Hymn



Blessèd City, heavenly Salem,
vision dear of peace and love,
who, of living stones upbuildèd,
art the joy of heaven above,
and, with angel cohorts circled,
as a bride to earth dost move!

From celestial realms descending,
bridal glory round her shed,
to his presence, decked with jewels,
by her Lord shall she be led:
all her streets, and all her bulwarks,
of pure gold are fashionèd.

**Bright with pearls her portals glitter,
they are open evermore;
and, by virtue of his merits,
thither faithful souls may soar,
who for Christ's dear name in this world
pain and tribulation bore.**

**Many a blow and biting sculpture
polished well those stones elect,
in their places now compacted
by the heavenly Architect,
who therewith hath willed for ever
that his palace should be decked.**

Words

Seventh-century Latin

Translation

John Mason Neale (1818-1866)

Music | "Westminster Abbey"

Henry Purcell (1659-1695)

Sentence

"Come, let us bow down and bend the knee, and kneel before God, our Maker."

Collect

Let us pray.

Almighty and merciful God, of whose only gift it comes that your faithful people do unto you true and laudable service: grant, we beseech you, that we may so faithfully serve you in this life, that we fail not finally to attain your heavenly promises; through the merits of Jesus Christ our Saviour.

Amen.

Psalmody

Come, let us bow down and bend the knee, and kneel before God, our Maker,

For you are our God, and we are the people of your pasture and the sheep of your hand. Oh, that today we would hearken to your voice!

Harden not your hearts, as your forebears did in the wilderness,
at Meribah, and on that day at Massah, when they tempted me;
They put me to the test, though they had seen my works.
Forty years long I detested that generation and said, "This
people are wayward in their hearts; they do not know my ways."

Psalm 95:6-11

Music

Thomas Tallis (c.1505-1585)

Reading

A reading from the Epistle to the Hebrews.

Deearly beloved: You have not come to something that can be touched, a blazing fire, and darkness, and gloom, and a tempest, and the sound of a trumpet, and a voice whose words made the hearers beg that not another word be spoken to them. (For they could not endure the order that was given, "If even an animal touches the mountain, it shall be stoned to death." Indeed, so terrifying was the sight that Moses said, "I tremble with fear.") But you have come to Mount Zion and to the city of the living God, the heavenly Jerusalem, and to innumerable angels in festal gathering, and to the assembly of the firstborn who are enrolled in heaven, and to God the judge of all, and to the spirits of the righteous made perfect, and to Jesus, the mediator of a new covenant, and to the sprinkled blood that speaks a better word than the blood of Abel. See that you do not refuse the one who is speaking; for if they did not escape when they refused the one who warned them on earth, how much less will we escape if we reject the one who warns from heaven!

Hear the word of life to the world.

Thanks be to God.

Hebrews 12:18-25





∩ Alleluia. Alleluia. Alleluia. R∩ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

∩ You have come to Mount Zion and to the city of the living God. R∩ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.** ∩ Go out into the roads and lanes, and compel people to come in, so that my house may be filled. R∩ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

Grace and peace be with you.

And keep you in the love of Christ.

Listen to the Holy Gospel according to ✠ Saint Luke.

Glory to you, O Christ.

At that time: One of the dinner guests said to Jesus, "Blessed is anyone who will eat bread in the kingdom of God!" Then Jesus said to him, "Someone gave a great dinner and invited many. At the time for the dinner he sent his slave to say to those who had been invited, 'Come; for everything is ready now.' But they all alike began to make excuses. The first said to him, 'I have bought a piece of land, and I must go out and see it; please accept my apologies.' Another said, 'I have bought five yoke of oxen, and I am going to try them out; please accept my apologies.' Another said, 'I have just been married, and therefore I cannot come.' So the slave returned and reported this to his master. Then the owner of the house became angry and said to his slave, 'Go out at once into the streets and lanes of the town and bring in the poor, the crippled, the blind, and the lame.' And the slave said, 'Sir, what you ordered has been done, and there is still room.' Then the master said to the slave, 'Go out into the roads and lanes, and compel people to come in, so that my house may be filled. For I tell you, none of those who were invited will taste my dinner.'"

This is the Gospel of our Saviour.

Praise to you, O Christ.

Luke 14:15-24

Offertory Hymn



**Plenteous grace with thee is found,
grace to cover all my sin;
let the healing streams abound,
make and keep me pure within.
Thou of life the fountain art:
freely let me take of thee,
spring thou up within my heart,
rise to all eternity.**

Words

Charles Wesley (1707-1788)

Music | "Aberystwyth"

Joseph Parry (1841-1903)

Motet

And I saw a new heaven and a new earth: for the first heaven and the first earth were passed away; and there was no more sea. And I John saw the holy city, new Jerusalem, coming down from God out of heaven, prepared as a bride adorned for her husband. And I heard a great voice out of heaven saying, Behold, the tabernacle of God is with men, and he will dwell with them, and they shall be his people, and God himself shall be with them, and be their God. And God shall wipe away all tears from their eyes; and there shall be no more death, neither sorrow, nor crying, neither shall there be any more pain: for the former things are passed away.

Words

Revelation 21:1-4

Music

Edgar Bainton (1880-1956)

Post-Communion Hymn



City of God, how broad and far
outspread thy walls sublime!
The true thy chartered freemen are
of every age and clime.

One holy Church, one army strong,
one steadfast, high intent;
one working band, one harvest-song,
one King omnipotent.

How purely hath thy speech come down
from man's primaevial youth!
How grandly hath thine empire grown
of freedom, love and truth!

How gleam thy watch-fires through the night
with never-fainting ray!
How rise thy towers, serene and bright,
to meet the dawning day!

In vain the surge's angry shock,
in vain the drifting sands:
unharm'd upon the eternal Rock
the eternal City stands.


Words

Samuel Johnson (1822-1882)

Music | "Richmond"

Thomas Haweis (1734-1820)

yn y Gosber ar Gân at Choral Evensong



Gosodiad yr Ymatebion | Setting of the Responses

Bernard Rose (1916-1996)

Gosodiad y Cantiglau | Setting of the Canticles

Gwasanaeth Hwylol Cyntaf | First Evening Service, Joe Cooper

Brawddeg Sentence

“Dewch, addolwn ac ymgrymwn, plygwn ein gliniau gerbron y Sanctaidd Un a’n gwnaeth.”

“Come, let us bow down and bend the knee, and kneel before God, our Maker.”

Emyn Hymn



All my hope on God is founded;
he doth still my trust renew.
Me through change and chance he guideth,
only good and only true.
God unknown, he alone
calls my heart to be his own.

**Addurniadau'r oes, darfyddant;
rhith duwioldeb heb ei grym;
balchder dyn a'i wag ogoniant,
nerthoedd byd, nid ydynt ddim:
gair y ffydd, para bydd,
disglair fel y seren ddydd.**

**God's great goodness aye endureth,
deep his wisdom, passing thought:
splendour, light and life attend him,
beauty springeth out of naught.
Evermore, from his store
new-born worlds rise and adore.**

**Arglwydd, aros ar yr adwy
gyda'th weision, er pob braw,
i gyhoeddi anchwiliadwy
olud Crist i'r oesoedd ddaw;
clyw ein cri, gwneler ni
fyth yn dystion gwir i ti.**

**Still from earth to God eternal
sacrifice of praise be done,
high above all praises praising
for the gift of Christ his Son.
Christ doth call one and all:
ye who follow shall not fall.**

Geiriau | Words

Joachim Neander (1650-1680)

John Daniel Vernon Lewis (1879-1970)

Cyfieithiad | Translation

Robert Bridges (1844-1930)

Cerddoriaeth | Music | "Michael"

Herbert Howells (1892-1983)

Salmyddiaeth **Psalmody**

Out of the deep have I called unto thee O Lord: Lord hearken unto my voice.

O let thine ears consider well: the voice of my supplications.

If thou Lord shouldest mark what is done amiss: O Lord who could abide it?



But there is mercy with thee: that so thou mayest be feared.

I wait for the Lord, my soul doth wait for him: and in his word is my trust.

My soul doth wait for the Lord: more than watchmen for the morning, yea more than watchmen for the morning.

O Israel trust in the Lord, for with the Lord there is mercy: and with him is plenteous redemption.

And he shall redeem Israel: from the multitude of his sins.

Codwn ar ein traed | We stand

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost; as it was in the beginning, is now and ever shall be; world without end. Amen.

Salm | Psalm 130

Cerddoriaeth | Music

Henry Purcell (1659-1695); Edward Francis Rimbault (1816-1876)

Llith o'r Hen Destament Lesson from the Old Testament

Here begins the eighth verse of the third chapter of the Book of Genesis.

In those days: They heard the sound of the Lord God walking in the garden at the time of the evening breeze, and the man and his wife hid themselves from the presence of the Lord God among the trees of the garden. But the Lord God called to the man, and said to him, "Where are you?" He said, "I heard the sound of you in the garden, and I was afraid, because I was naked; and I hid myself." He said, "Who told you that you were naked? Have you eaten from the tree of which I commanded you not to eat?" The man said, "The woman whom you gave to be with me, she gave me fruit from the tree, and I ate." Then the Lord God said to the woman, "What is this that you have done?" The woman said, "The serpent tricked me, and I ate." The Lord God said to the serpent, "Because you have done this, cursed are you among all animals and among all wild creatures; upon your belly you shall go, and dust you shall eat all the days of your life. I will put enmity between you and the woman, and between your offspring and hers; he will strike your head, and you will strike his heel."

Here ends the First Lesson.

Llith o'r Testament Newydd Lesson from the New Testament

Yma y mae yn dechrau ugeinfed adnod trydedd bennod yr Efenigyl yn ôl Sant Marc.

Bryd hynny: Daeth Iesu i'r tŷ; a dyma'r dyrfa'n ymgasglu unwaith eto, nes eu bod yn methu cymryd pryd o fwyd hyd yn oed. A phan glywodd ei deulu, aethant allan i'w atal ef, oherwydd dweud yr oeddent, "Y mae wedi colli arno'i hun." A'r ysgrifenyddion hefyd, a oedd wedi dod i lawr o Jerwsalem, yr oeddent hwythau'n dweud, "Y mae Beelsebwl ynddo", a, "Trwy bennaeth y cythreuliaid y mae'n bwrw allan gythreuliaid." Galwodd hwy ato ac meddai wrthynt ar ddamhegion: "Pa fodd y gall Satan fwrw allan Satan? Os bydd teyrnas yn ymrannu yn ei herbyn ei hun, ni all y deyrnas honno sefyll. Ac os bydd tŷ yn ymrannu yn ei erbyn ei hun, ni all y tŷ hwnnw sefyll. Ac os yw Satan wedi codi yn ei erbyn ei hun ac ymrannu, ni all yntau sefyll; y mae ar ben arno. Eithr ni all neb fynd i mewn i dŷ'r un cryf ac ysbeilio'i ddodrefn heb yn gyntaf rwymo'r un cryf; wedyn caiff ysbeilio'i dŷ ef. Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, maddeuir popeth i blant y ddaear, eu pechodau a'u cableddau, beth bynnag fyddant; ond pwy bynnag a gabla yn erbyn yr Ysbryd Glân, ni chaiff faddeuant byth; y mae'n euog o bechod tragwyddol." Dywedodd hyn oherwydd iddynt ddweud, "Y mae ysbryd aflan ynddo." A daeth ei fam ef a'i frodyr, a chan sefyll y tu allan anfonasant ato i'w alw. Yr oedd tyrfa'n eistedd o'i amgylch, ac meddent wrtho, "Dacw dy fam a'th frodyr a'th chwiorydd y tu allan yn dy geisio." Atebodd hwy, "Pwy yw fy mam i a'm brodyr?" A chan edrych ar y rhai oedd yn eistedd yn gylch o'i gwmpas, dywedodd, "Dyma fy mam a'm brodyr i. Pwy bynnag sy'n gwneud ewylllys Duw, y mae hwnnw'n frawd i mi, ac yn chwaer, ac yn fam."

Yma y terfyn yr Ail Lith.

Translation

At that time: Jesus went home; and the crowd came together again, so that they could not even eat. When his family heard it, they went out to restrain him, for people were saying, "He has gone out of his mind." And the scribes who came down from Jerusalem said, "He has Beelzebul, and by the ruler of the demons he casts out demons." And he called them to him, and spoke to them in parables, "How can Satan cast out Satan? If a kingdom is divided against itself, that

kingdom cannot stand. And if a house is divided against itself, that house will not be able to stand. And if Satan has risen up against himself and is divided, he cannot stand, but his end has come. But no one can enter a strong man's house and plunder his property without first tying up the strong man; then indeed the house can be plundered. Truly I tell you, people will be forgiven for their sins and whatever blasphemies they utter; but whoever blasphemes against the Holy Spirit can never have forgiveness, but is guilty of an eternal sin"— for they had said, "He has an unclean spirit." Then his mother and his brothers came; and standing outside, they sent to him and called him. A crowd was sitting around him; and they said to him, "Your mother and your brothers and sisters are outside, asking for you." And he replied, "Who are my mother and my brothers?" And looking at those who sat around him, he said, "Here are my mother and my brothers! Whoever does the will of God is my brother and sister and mother."

Marc | Mark 3:20-35

Gweddi Gasgl y Dydd **Collect of the Day**

Hollalluog a thrugarog Dduw, y daw o'th rodd di yn unig fod dy bobl ffyddlon yn dy wasanaethu'n gywir ac yn ganmoladwy: caniatâ inni allu dy wasanaethu mor ffyddlon yn y bywyd hwn fel na chollwn yn y diwedd fwynhad dy nefol addewidion; trwy haeddiant Iesu Grist ein Gwaredwr. Amen.

Translation

Almighty and merciful God, of whose only gift it comes that your faithful people do unto you true and laudable service: grant, we beseech you, that we may so faithfully serve you in this life, that we fail not finally to attain your heavenly promises; through the merits of Jesus Christ our Saviour. Amen.

Anthem

God builds a home; the apostles and prophets for a foundation;

you, brick by brick; Christ Jesus as the cornerstone; taking shape, day by day; a holy temple in the Spirit, a dwelling place, of us, for God. "Toi'r eglwys fawr. Tir glas fu."

Geiriau | Words

Effesiaid | Ephesians 2:20-22; Dafydd Trefor (ob.c.1528)

Cerddoriaeth | Music

Paul Mealor

Eryn Hymn



Forth in the peace of Christ we go;
Christ to the world with joy we bring;
Christ in our minds, Christ on our lips,
Christ in our hearts, the world's true King.

King of our hearts, Christ makes us kings;
kingship with him his servants gain;
with Christ, the Servant-Lord of all,
Christ's world we serve to share Christ's reign.

Priests of the world, Christ sends us forth,
the world of time to consecrate,
the world of sin by grace to heal,
Christ's world in Christ to recreate.

Christ's are our lips, his word we speak;
prophets are we whose deeds proclaim
Christ's truth in love that we may be
Christ in the world, to spread Christ's name.

We are the Church; Christ bids us show
that in his Church all nations find
their hearth and home where Christ restores
true peace, true love, to humankind.


Geiriau | Words

James Quinn (1919-2010)

Cerddoriaeth | Music | "Song 34"

Orlando Gibbons (1583-1625)

Hysbys Notices



Duw a Dysgwyr

Mae gwasanaeth misol newydd i unrhyw un sy'n dysgu Cymraeg yn dechrau yn y gadeirlan ddydd Llun 17eg Mehefin. Gwasanaeth cymun yn Gymraeg yw "Duw a Dysgwyr", ond gyda chymorth geirfa ac ynganu yn nhrefn y gwasanaeth. Yr Esgob David Morris fydd yn cymryd y gwasanaeth, ac fel dysgwr ei hun, wedi ymgymryd â'r her o wneud yr ewcharist yn Gymraeg am y tro cyntaf. Yn dilyn y gwasanaeth bydd cyfle i ymarfer siarad Cymraeg dros ginio ysgafn. Croeso i bawb, boed yn siaradwr iaith gyntaf rhugl neu'n ddechreuwr.

Canon Secundus

Mae'r Parchg Alexier Mayes wedi'i benodi'n Canon Secundus newydd yr eglwys gadeiriol, gan gymryd lle David Morris ar ôl cael ei ddyrchafu'n esgob cynorthwyol. Fel David o'r blaen, bydd yn gweithio fel cyfarwyddwr gweinidogaeth Esgobaeth Bangor, er na fydd ganddi rôl reolaidd ym mywyd wythnosol yr eglwys gadeiriol. Ar hyn o bryd mae Alex yn offeiriad â gofal yng Nghei Connah yn Esgobaeth Llanelwy a bydd yn dechrau yn ei swydd yn swyddogol mewn gwasanaeth trwyddedu brynhawn 18 Awst.

Ordination

Bydd ein is-ganon, Y Parchg Josie Godfrey, yn cael ei ordeinio'n offeiriad ar ddydd Sadwrn 29 Mehefin am 11am. Byddai Josie wrth ei bodd yn gweld cymaint o bobl â phosibl o deulu'r gadeirlan sydd wedi bod gyda hi ar ei thaith i'r weinidogaeth ordeiniedig dros y 12 mis diwethaf. Mae croeso i bawb i'r gwasanaeth - dim angen tocynnau, ond os ydych yn bwriadu bod yno, a fydddech cystal ag anfon e-bost at mereridmorganwilliams@cinw.org.uk

fel bod gennym syniad o'r niferoedd ar gyfer seddi ac arlwygo wedyn. Cadwch Josie yn eich gweddïau wrth iddi baratoi i ddechrau ei gweinidogaeth offeiriadol.

Bring and Share Lunch

Date for your diary: the next bring and share lunch follows the 11am Choral Holy Eucharist on Sunday 30th June. This service will be the first time Revd Josie Godfrey presides at communion following her ordination the previous day - please do come along and support her. Talk to Jane Coutts about what food needs bringing.

Datganiadau Cerdd Dydd Iau

Pob dydd Iau

1.15pm am 45 munud

13 Mehefin | Samuel Johnson | Trwmped

20 Mehefin | Simon Lawford | Organ

Duw a Dysgwyr

A new monthly service for anyone learning Welsh starts at the cathedral on Monday 17th June. "Duw a Dysgwyr" is a communion service in Welsh, but with vocabulary and pronunciation help in the order of service. Bishop David Morris will be taking the service, and as a learner himself, has taken on the challenge of doing the eucharist in Welsh for the first time. The service will be followed by chance to practise speaking Welsh over a light lunch. All welcome, whether a fluent first language speaker or a beginner.

Canon Secundus

The Revd Alexier Mayes has been appointed as the cathedral's new Canon Secundus, replacing David Morris after his promotion to assistant bishop. Like David previously, she'll be working as the director of ministry for Bangor Diocese, though she won't have a regular role in the weekly life of the cathedral. Alex is currently priest in charge in Connah's Quay in St Asaph diocese and will take up her post officially at a licensing service in the afternoon of 18th August.

Ordination

Our minor canon, The Rev'd Josie Godfrey, will be ordained as a priest on Saturday 29th June at 11am. Josie would love to see as many people as possible from the cathedral family who've been with her on her journey into ordained ministry over the last 12 months. Everyone is welcome to the service - no tickets needed, but if you plan to be there, could you email mereridmorganwilliams@cinw.org.uk so we have an idea of numbers for seating and catering afterwards. Please keep Josie in your prayers as she prepares to start her priestly ministry.

Bring and Share Lunch

Date for your diary: the next bring and share lunch follows the 11am Choral Holy Eucharist on Sunday 30th June. This service will be the first time Revd Josie Godfrey presides at communion following her ordination the previous day - please do come along and support her. Talk to Jane Coutts about what food needs bringing.

Thursday Recitals

Every Thursday
1.15pm for 45 minutes

13 June | Samuel Johnson | Trumpet

20 June | Simon Lawford | Organ

Yr wythnos This week

Dydd Llun | Monday | Rhychwyn

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

**11 Mehefin | Dygwyl Barnabas
June | St Barnabas's Day**

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

**Dydd Mercher | Wednesday | Colum
Cille | Columba**

12.30pm Cymun | Eucharist

**Dydd Iau | Thursday | Antwn o
Badofa | Anthony of Padua**

12.30pm Cymun | Eucharist

1.15pm Datganiad | Recital

2.00pm | Eglwys y Groes Cymun |
Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

**16 Mehefin | Y Trydydd Sul wedi'r
Drindod**

**16 June | The Third Sunday after
Trinity**

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun y Cymry ii, Harper; Yr Arglwydd yw
fy Mugail, Roberts

11.00am Choral Holy Eucharist

Communion Service in F, Sumsion; Sheep
may safely graze, Bach

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Sumsion;
Gwasanaeth Hwyrrol yn G | Evening Service
in G, Stanford; O for a closer walk, Stanford

*Darllenwch Buchedd Bangor ar gyfer
manyllion cerddoriaeth yn ystod yr wythnos
| See Buchedd Bangor for music details
during the week*

Ein gweddi Our prayers

Yn glâf The sick Dmitro; Swetlana;
Bogdan; Nita Edwards; Rhian Wynne;
Josie; Abin; Alex; Jinesh; John Watkin
Jones; Helen Lincoln; Bill Lovelock

**A fu farw'n diweddar The recently
departed** Josephine Darnell; Garry Barr;
Behice Yücel Mankan; Omanchi Agbaji

Gŵyl goffa Year's mind —



Eglwys Gadeiriol ac Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwmo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfrin hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio arlein, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar sianel YouTube y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Daw'r drefn a'i chynnwys o **Llyfr Gweddî Gyffredin (1662 ac 1984)**. Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr (1850)** a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary (2019)** a **The Revised Psalter (1963)**.

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Many of our services are streamed online, and the recording made available thereafter on the Cathedral's YouTube channel. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. The form and content of the service are taken from **The Book of Common Prayer (1662 and 1984)**. The lessons and Welsh-language psalmody are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. The refrain of the Welsh-language psalmody is from Nicander, **Y Psallwyr (1850)**, and the English-language psalmody is that of **The Saint Helena Breviary (2019)** and **The Revised Psalter (1963)**.